**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JMEWL/4025/21

Jayne Bryant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
SeneddPlant@senedd.cymru

25 Tachwedd 2021

Annwyl Jayne

Diolch am eich llythyr dyddiedig 19 Tachwedd ynghylch y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) (SLCM Rhif 2) ar gyfer Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16 y DU ("y Bil") a osodwyd ar 29 Hydref. Codwyd ymholiadau gennych mewn perthynas â'r ddarpariaeth a wneir gan gymalau 1 a 4 a chan gymal 25 o'r Bil. Rwyf wedi ymateb isod.

**Cymalau 1 (cynlluniau gwella sgiliau lleol) a 4 (dehongli)**

Effaith y gwelliannau a wnaed i gymalau 1 a 4 o'r Bil yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi ar 12 Hydref oedd cynyddu'r posibilrwydd y gallai sefydliadau Cymru fod yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau mewn perthynas â chynlluniau gwella sgiliau lleol ar gyfer Lloegr. Mae'r gwelliannau i gymal 1 yn cyfyngu ar yr addysg a'r hyfforddiant o fewn cwmpas y dyletswyddau mewn perthynas â'r cynlluniau gwella sgiliau lleol i hyfforddiant ac addysg dechnegol ôl-16 "a ariennir gan Loegr" ("*English funded*"). Er hyn, mae'r gwelliannau i gymal 4 sy'n diffinio "a ariennir gan Loegr" yn cynnwys cymorth i fyfyrwyr a ddarperir gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Yn fy nhyb i, gallai effaith gyfunol y gwelliannau hyn o bosibl olygu bod cyrsiau sefydliadau yng Nghymru, yr ymgymerir â hwy gan fyfyrwyr sy'n hanu o Loegr ac sy'n cael cymorth i fyfyrwyr gan Lywodraeth y DU, yn cael eu hystyried yn berthnasol i anghenion sgiliau ardal leol yn Lloegr. Mae'r Bil yn darparu, pan fo addysg dechnegol ôl-16 yn berthnasol i ardal leol yn Lloegr, yna mae sefydliadau sy'n darparu'r addysg honno yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau mewn perthynas â chynlluniau gwella sgiliau lleol a nodir yng nghymal 1(3), 1(4) ac 1(5). Mae'r ffaith bod cymorth ariannol i fyfyrwyr wedi'i gynnwys yn niffiniad darpariaeth "a ariennir gan Loegr" yn peri pryder penodol gan y gallai'r dull hwn olygu bod ystod eang o hyfforddiant ac addysg ôl-16 a gynigir gan sefydliadau yng Nghymru yn dod o fewn cwmpas y dyletswyddau mewn perthynas â chynlluniau gwella sgiliau lleol.

Mae fy swyddogion wedi bod yn ymwneud â swyddogion Adran Addysg Llywodraeth y DU ers misoedd ac maent wedi cael trafodaethau cynhyrchiol mewn perthynas â chymhwyso cymalau 1 a 4 i sefydliadau yng Nghymru. Roedd y gwelliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU i'w hystyried yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi yn welliant o gymharu â'r Bil fel y'i cyflwynwyd hyd yma gan eu bod yn pennu cysylltiad â chyllido darpariaeth ôl-16 gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Fodd bynnag, nid oedd y gwelliannau'n mynd i'r afael yn

ddigonol â'r mater sylfaenol sy'n peri pryder, sef y dyletswyddau statudol a osodir ar sefydliadau yng Nghymru nad ydynt, yn fy nhyb i, yn angenrheidiol nac yn gymesur. Mae cymesuredd a'r tebygolrwydd y bydd sefydliadau yng Nghymru yn darparu addysg dechnegol ôl-16 a ystyrir yn berthnasol i ardal leol yn Lloegr yn faterion a godwyd gan fy swyddogion pan gawsant weld y gwelliannau drafft yn gynnar ym mis Hydref. Er hyn, nid oedd amserlen Llywodraeth y DU ar gyfer cwblhau eu gwelliannau ar gyfer y Cyfnod Adrodd yn caniatáu ar gyfer dadansoddi'r gwelliannau'n llawn na'u hailddrafftio cyn iddynt gael eu cyflwyno.

Ysgrifennais at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg ar 29 Hydref yn amlinellu fy mhryderon, gan nodi mai diben cynlluniau gwella sgiliau lleol yw sicrhau bod addysg ôl-16 ar gael i ddiwallu anghenion sgiliau cyflogwyr mewn ardaloedd penodedig yn Lloegr, a bod gosod dyletswyddau cyfreithiol ar sefydliadau yng Nghymru mewn perthynas â'r cynlluniau hyn yn ddiangen. Hysbysais yr Ysgrifennydd Gwladol yr hoffwn weld gwelliannau'n cael eu cyflwyno i gael gwared ar y dyletswyddau mewn perthynas â chynlluniau gwella sgiliau lleol ar sefydliadau yng Nghymru.

Mae trafodaethau wedi'u cynnal ar lefel swyddogol ac mae llawer o gynnydd wedi'i wneud yn yr wythnosau diwethaf i fynd i'r afael â fy mhryderon. Rwy'n falch o allu rhoi gwybod ichi fod Llywodraeth y DU wedi cyflwyno gwelliannau i'w hystyried yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin. Mae'r gwelliannau hynny'n mynd i'r afael â fy mhryderon ac maent ar gael yma: skills_pbc_rm_1124.fm (parliament.uk). Rwy'n bwriadu gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol pellach cyn gynted â phosibl i adlewyrchu'r gwelliannau hyn.

**Cymal 25 (Sefydliadau yn y sector addysg bellach: gweithdrefn ddynodi)**

Ychwanegwyd cymal 25 at y Bil yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi. Mae'r gwelliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU ar 24 Tachwedd ar gyfer Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin yn ceisio dileu'r cymal hwn o'r Bil.

Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Huw Irranca-Davies AS.

Yn gywir



**Jeremy Miles AS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language